



Cyf. H/A.:

Adran Lle a Seilwaith
 Uned Gofal Strydoedd / DGFFASN
 Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
Ffôn: (01267) 224507/08/09
E-bost: gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

Department of Place & Infrastructure
 Street Care / NRASWA Section
 Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
Tel: (01267) 224507/08/09
E-mail: streetcare@carmarthenshire.gov.uk

GOLEUADAU TRAFFIG SYMUDOL

DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991
 RHEOLIADAU A CHYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL ARWYDDION TRAFFIG 2002 Rhif 3113
 DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004
 Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd ar y cefn neu cysylltwch â'r swyddfa uchod.

CAIS AR GYFER: (TICIWCH FLWCH)

<input type="checkbox"/>	GOLEUADAU RHEOLI AMLWEDD – ANGEN 14 DIWRNOD O RYBUDD – E-BOST RheoliTraffig@sirgar.gov.uk
<input type="checkbox"/>	BYRDDAU AROS/EWCH AMLWEDD – ANGEN 14 DIWRNOD O RYBUDD – E-BOST RheoliTraffig@sirgar.gov.uk
<input type="checkbox"/>	GOLEUADAU RHEOLI DWYFFORDD – E-BOST gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk
<input type="checkbox"/>	BYRDDAU AROS/EWCH DWYFFORDD – E-BOST gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

GAN:		ENW CYSWLLT:					
		FFÔN:					
		FFACS:					
		CYSWLLT Y TU ALLAN I'R ORIAU ARFEROL:					
CLEIENT:		FFÔN:					
GWEITHREDWR RHEOLI TRAFFIG a'i FANYLION CYSWLLT:							
ARGYFWNG/SEFYLLFA FRYS - 2 AWR		GWAITH MAWR - 1 MIS	GWAITH CYNLLUNEDIG - 7 DIWRNOD		3 DIWRNOD	UN DIWRNOD	
DYDDIAD DECHRAU:				DYDDIAD DOD I BEN:			
LLEOLIAD Y GWAITH:							
<i>YN ACHOS GWAITH AR GEFNFFYRDD, GWELER Y NODIADAU DROSODD</i>							
RHIF Y FFORDD.:		CYFEIRNOD GRID O.S.:		A OES CYFFORDD AR Y SAFLE?: OES*/NAC OES*			
SEFYLLFA SY'N SENSITIF I DRAFFIG?: YDY*/ NAC YDY* OS FELLY, CYFEIRIWCH AT YR AWDURDOD PRIFFYRDD							
DIBEN Y GWAITH:							
ORIAU GWEITHREDU:	GWEITHREDIAD DIWRNOD GWAITH (h.y. 7.30am i 4.30pm)			GWEITHREDIAD 24 AWR			

MAE ANGEN Y WYBODAETH YCHWANEGOL GANLYNOL ER MWYN CYMERADWYO GWEITHREDIAD AMLWEDD	
AMSERAU AMLWEDD:	
LLED Y FFYRDD SY'N WEDDILL:	NIFER Y GOLEUADAU TRAFFIG:
4 copi o gynlluniau'r safle a chynlluniau lleoliad sy'n dangos lleoliad y goleuadau traffig	

DATGANIAD:

Trwy hyn rwyf yn datgan y bydd y golau traffig symudol a ddefnyddir o fath a gymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd:

LLOFNOD: _____ DYDDIAD: _____

NODIADAU CYFARWYDDYD - DEFNYDDIO GOLEUADAU TRAFFIG SYMUDOL AR Y PRIFFYRDD

NI DDYLID DEFNYDDIO GOLEUADAU TRAFFIG SYMUDOL O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU AR GYFER GWAITH SY'N YMESTYN DROS GROESFAN RHEILFFORDD, NAC I REOLI TRAFFIG AR FFORDD SYDD O FEWN 200 METR O GROESFAN RHEILFFORDD SYDD Â DAU OLAU TRAFFIG COCH. RHAID CEISIO CYNGOR YR AWDURDOD TRAFNIDIAETH/RHEILFFYRDD A CHAEL CADARNHAD O GYMERADWYAETH GAN YR ADAIN GWAITH STRYD CYN I WAITH DDECHRAU GER CROESFANAU RHEILFFORDD.

1. Yn ôl gofynion Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002 Rhif 3113, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, rhoddir RHYBUDD i'r Awdurdod Priffyrdd pryd y defnyddir Goleuadau Rheoli Traffig Symudol ar y Briffordd.
2. Bydd darparu, gweithredu a chynnal a chadw'r holl signalau, goleuadau, gardiau a ffensys er mwyn diogelu ac amddiffyn y gwaith stryd a'r gwaith ffordd ac aelodau'r cyhoedd yn cael ei wneud yn unol â Phennod 8 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig, Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd, Côd Ymarfer, cyfarwydebau technegol priodol a nodiadau cyfarwyddyd a ddarperir gan yr Awdurdod Priffyrdd, yr Adran Trafnidiaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3. **RHAID** i'r holl **GEISIADAU** a **HYSBYSIADAU** am ddefnyddio Goleuadau Traffig Symudol gael eu hanfon neu eu ffacio at yr **ADAIN GWAITH STRYD** drwy ddefnyddio'r cyfeiriad/rhif ffacs a nodir drosodd.
4. Lle bo Goleuadau Rheoli Traffig Symudol yn cael eu defnyddio ar safle sy'n cynnwys CYFFORDD, mae'n OFYNIAD STATUDOL i'r Awdurdod Priffyrdd roi CYMERADWYAETH SAFLE YSGRIFENEDIG i'w gweithredu CYN DECHRAU EU DEFNYDDIO.
5. Lle bo'r lleoliad yn cynnwys cyffordd, rhaid i'r cais gynnwys copi o gynllun sy'n dangos lleoliadau'r goleuadau traffig, ynghyd â manylion yr amseriadau arfaethedig.
6. Rhaid i geisiadau am ddefnyddio goleuadau traffig amlwedd symudol ar **Gefnffyrdd** gael eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. **Er mwyn awdurdodi goleuadau amlwedd ar Gefnffyrdd, dylid caniatáu o leiaf un mis i'w prosesu. Ar Ffyrdd Sirol, dylid caniatáu o leiaf 14 diwrnod.**
7. 1. **RHAID** i'r holl **GEISIADAU** a **HYSBYSIADAU** ar gyfer defnyddio Goleuadau Traffig Symudol ar **Rwydwaith Cefnffyrdd De Cymru** a ddangosir isod gael eu hanfon drwy **e-bost** at enquiries@southwales-tra.gov.uk, eu **ffacio** at 01792 325905 neu eu hanfon drwy'r **post** at Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, Uned 12, Tŷ Llandarsi, The Courtyard, Llandarsi, Castell-nedd. SA10 6EJ

ASiantaeth Cefnffyrdd De Cymru - Rhwydwaith Cefnffyrdd

A40(T)	ABERGWAUN I HWLFFORDD
A40(T)	HWLFFORDD I SANCLÊR
A40(T)	SANCLÊR I GAERFYRDDIN (Ffordd Ddeuol)
A40(T)	CAERFYRDDIN I GYLCHFAN ABERGWILI (ger Amgueddfa Caerfyrdin)
A48(T)	M4 PONT ABRAHAM I GAERFYRDDIN (Ffordd Ddeuol))
A477(T)	SANCLÊR I DDOC PENFRO
A483(T)	M4 PONT ABRAHAM I RYDAMAN
A483(T)	RHYDAMAN I LANDEILO
A4076(T)	HWLFFORDD I BONT FADLEN
A4076(T)	PONT FADLEN I ABERDAUGLEDDAU

Mewn **ARGYFWNG** neu sefyllfa **FRYS**:

- **RHAID** anfon y ffurflen hon drwy neges e-bost at Gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk ar unwaith ac wedyn cysylltu â'r Adain Gwaith Stryd drwy ffonio 01267 224507 / 224508 / 224509 yn ystod oriau gwaith arferol.
- Manylion cyswllt y tu allan i'r oriau arferol: **Cyngor Sir Caerfyrdin** (03003 332222), **Heddlu Dyfed-Powys** (101 neu 999), **Trafnidiaeth Cymru – Cefnffyrdd** (0845 6026020)